**ATODIAD 2**

# CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

**Asesiad effaith ar broses Ymgynghoriad ar ddyfodol Y Frondeg**

## 1) AWDUR YR ASESIAD

| |
|---|
| Olwen Ellis Jones, Rheolwr Gwasanaeth Anableddau Dysgu, Oedolion Iechyd a Llesiant**.** |

## 2) PARTNERIAID

| |
|---|
| Preswylwyr presennol Y Frondeg, teuluoedd a staff<br>Oedolion ar Gofrestr Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd<br>Teuluoedd a Gofalwyr plant ac oedolion gydag Anableddau Dysgu<br>Aelod Cabinet Gofal, Cynghorydd Gareth Roberts<br>Aelod Cabinet Tai, Cynghorydd Ioan Thomas<br>Cynghorydd Lleol Glyn Thomas (Cadnant)<br>Aelodau'r Cyngor Gwynedd Council<br>Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad<br>Grwp Gwella Gwasanaeth Anableddau Dysgu<br>Cyngor Tref Caernarfon<br>Gwasanaeth Adfocatiaeth<br>Y Gymuned leol |

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

| |
|---|
| **1 Mehefin 2015** |

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

| |
|---|
| Asesiad pellach i'w wneud pan gyflwyni'r casgliadau ac argymhellion y broses ymgynghori. |

## 5) NOD AC AMCANION Y GWASANAETH

| |
|---|
| Y mae tryloywder yn angenrheidiol yn y broses o wneud penderfyniadau o fewn y Cyngor, gan ystyried barn y bobl sydd yn cael eu heffeithio.<br><br>Ystyrir gwella a moderneiddio neu ail fodelu'r darpariaeth preswyl a chymunedol ar gyfer y dyfodol i gydymffurfio gyda Strategaeth Llywodraeth Cymru a gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu. |

**ATODIAD 2**

## 6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Yn y cyfnod yn arwain i ysgrifennu'r adroddiad a'r argymhelliad mae'r Cyngor am :

- Cynnal trafodaethau gyda Swyddogion y Cyngor, a'r Gwasanaeth Adfocatiaeth ar y dull ac amserlen i ymgynghori gyda'r ungolion a'u teuluoedd.

- Datblygu amserlen Ymgynghori gyda'r budd-ddeiliaid allweddol i gael eu barn ynglyn a'r opsiynau sydd wedi ei adnabod yn dilyn cwblhau Astudiaeth Dichonoldeb ar y safle a derbyn arweiniad gan y Cabinet.

- Amserlennu bwriad i ymgynghori ar yr opsiynau posib, a rhoi trefniadau mewn lle i gefnogi'r budd-ddeiliad allweddol yn ystod yr ymgynghoriad.

Bydd y mesuriadau isod mewn lle i gefnogi budd-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghori:

1.Taflen gwybodaeth sydd yn nodi'r cefndir ac yn gosod y sefyllfa yn ei gyd-destun.
2. Holiadur ar yr opsiynau i dderbyn barn y budd-ddeiliaid
3.Cyfarfodydd unigol gyda preswylwyr presennol Y Frondeg a'u teulueodd.
4.Darpariaeth adfocatiaeth annibynnol ar gael i'r defnyddwyr.
5.Cyfarfodydd gyda'r staff.
6.Cynnal deialog gyda'r cynrychiolwyr etholedig.
7.Swyddog o'r Cyngor ar gael ar amseroedd penodol i dderbyn sylwadau yn ystod a dilyn yr ymgynghoriad.

## 7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Rydym yn parhau gyda chyfeiriad sydd wedi ei osod gan y Cyngor i wella ansawdd bywyd unigolion gydag Anableddau Dysgu.

Gwneir hyn drwy weithredu rhaglen trawsnewid model lletya Cyngor Gwynedd ar gyfer oedolion ag Anableddau Dysgu, yn unol â:

- Chynllun Comisiynu Anabledd Dysgu 2011-16
- Strategaeth Llywodraeth Cymru ' Polisi ac Arferion i Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu' 2007

A gweledigaeth Strategol Gogledd Cymru:
'Mobius UK Developing Citizen Centred' Services for People with Learning Disabilities (2008)

**ATODIAD 2**

## 8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH

| |
|---|
| Rydym yn ceisio barn yr holl fudd-ddeiliaid ar y gofrestr Anableddau Dysgu er mwyn sicrhau na fydd bylchau mewn tystiolaeth. |

**ATODIAD 2**

## 9) PERTHNASEDD AC EFFAITH

### 9a) O safbwynt y dyletswyddau cyffredinol

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Perthnasol | Byddem yn sicrhau yn ystod y broses ymgynghori ni fydd camwahaniaethu yn erbyn unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | **Perthnasol** | Bydd y broses ymgynghori yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. |
| **Meithrin perthnasau da** | **Perthnasol** | Yn ystod yr ymgynghori byddem yn hybu perthnasau da drwy annog cyfranogiad a mewnbwn budd-ddeiliaid amrywiol i'r broses. |

**ATODIAD 2**

## 9b) O safbwynt y grwpiau cydraddoldeb

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Perthnasol | Bydd unrhyw lenyddiaeth a gohebiaethau yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg neu Saesneg gan mai dyma yw iaith gyntaf y budd-ddeiliaid allweddol sydd â chyswllt a Frondeg.<br>Nid ydym yn rhagweld bydd yr ymgynghori yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. |
| **Anabledd** | Perthnasol | Bydd yr ymgynghori yn ystyried anghenion y defnyddwyr drwy gynnig y Gwasanaeth Adfocatiaeth annibynnol i'r rhai sydd yn dymuno ei ddefnyddio a drwy gynnig gwybodaeth ar fformatau amgen yn unol â dewis yr unigolyn. |
| **Rhyw** | Perthnasol | Yn ystod y broses ymgynghori ni fydd camwahaniaethau ar sail rhyw.<br>Nid ydym yn rhagweld bydd yr ymgynghori yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. |
| **Ailbennu rhywedd** | Perthnasol | Nid ydym yn rhagweld bydd yr ymgynghori yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Perthnasol | Nid ydym yn rhagweld bydd yr ymgynghoritu yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. |
| **Crefydd neu gred** | Perthnasol | Nid ydym yn rhagweld bydd yr ymgynghoriu yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Perthnasol | Mae'r broses ymgynghori yn ddwyieithog; gall pobl ymateb drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu iaith o'u dewis. |
| **Oedran** | Perthnasol | Yn ystod y broses ymgynghori ni fydd camwahaniaethau ar sail oedran. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Perthnasol | Nid ydym yn rhagweld bydd yr ymgynghori yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. |

**ATODIAD 2**

| | | |
|---|---|---|
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Perthnasol | Nid ydym yn rhagweld bydd yr ymgynghori yn achosi mwy o bryder i un grŵp nac un arall. |

**ATODIAD 2**

## 10) MYND I’R AFAEL A’R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Bydd unrhyw ymgysylltiad yn achosi pryder ac ansicrwydd i fudd-ddeiliaid allweddol. Yn sgil hyn bydd swyddogion Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cydweithio i rhoi trefniadau mewn lle i’w cefnogi yn ystod y cyfnod. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella’r effeithiau yma?**<br><br>Bydd y mesuriadau isod mewn lle i gefnogi budd-ddeiliaid yn ystod y broses ymgysylltu:<br><br>1.Taflen gwybodaeth yn nodi’r cefndir ac yn gosod y sefyllfa yn ei gyd-destun.<br>2. Gwybodaeth yn cael ei baratoi ar ffurf addas i’r defnyddwyr.<br>3. Holiadur ar yr opsiynau i dderbyn barn y budd-ddeiliaid<br>4. Cyfarfodydd unigol gyda’r defnyddwyr a’u teuluoedd.<br>5.Darpariaeth adfocatiaeth annibynnol ar gael i’r defnyddwyr, mynediad i weithiwr cymdeithasol.<br>6.Cyfarfodydd gyda’r staff.<br>7.Cynnal deialog gyda’r cynrychiolwyr etholedig.<br>8.Swyddog o’r Cyngor ar gael ar amseroedd penodol i dderbyn sylwadau. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br>Bydd yr asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei adolygu pan ddadansoddi’r canlyniadau’r ymgynghoriad. |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Yn y cyfnod sy'n arwain i gyflwyno’r adroddiad i'r cabinet bydd trefniadau ymgysylltu a chefnogi budd-ddeiliaid yn cael ei gydlynu gan Rheolwr Gwasanaeth Anableddau Dysgu sy'n adrodd i Bennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a Chyfarwyddwr Corfforaethol.

Pe bai’r argymhelliad i ddechrau proses ymgynghori yn cael ei gymeradwyo bydd Rheolwr Ymgysylltu ynghyd a swyddogion perthnasol o fewn Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cydweithio i gydlynu’r broses ymgynghori a chefnogi’r budd-ddeiliaid allweddol drwy’r cyfnod

Bydd y swyddogion yn adrodd i Fwrdd Rhaglen Lletya

**ATODIAD 2**

## 12) CYNLLUN GWEITHREDU

Mae’r tabl isod yn crynhoi'r prif gamau gweithredu fydd ynghlwm i unrhyw broses ymgysylltu.

| **Prif Gamau Gweithredu** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Derbyn arweiniad gan y Cabinet ar gyfer ymgynghori yn ffurfiol ar ddyfodol cartref Y Frondeg, a pha opsiynnau i’w hystyried. | 14 Gorffennaf 2015 |
| Cynnal Ymgynghoriad ffurfiol ar yr opsiwn(ynau) a ffefrif yn dilyn arweiniad y Cabinet. | Medi / Hydref 2015 |
| Dehongli canlyniadau’r ymgynghoriad a pharatoi adroddiad i gabinet gydag argymhellion ar y ffordd ymlaen | Tachwedd 2015 |
| Cyflwyno’r canlyniadau ac adroddiad i’r Cabinet | Rhagfyr 2015 |
| Derbyn arweiniad gan y Cabinet ar y ffordd ymlaen. | Rhagfyr 2015 |

## 13) PENDERFYNU

Cafodd yr asesiad hwn ei dderbyn a’i gymeradwyo gan

- Rheolwr Gwasanaeth Anableddau Dysgu
- Pennaeth Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant